I urge you not to underestimate the significance of a store like Debenhams in a place Newport. We suffer a large number of vacant retail units along our main historic shopping street (Commercial Street) and even in Friars Walk itself, which has only been open a few years. Part of the reason for this is the crushing burden of an outdated business rates system, which does not reflect the reality of modern retail businesses.

I never thought I would ever write to my elected representatives or petition the Government for greater support for a large retail business. But in fact I am writing to you out of concern for the future prosperity of Newport more broadly, the 3rd biggest city in Wales, and the gateway to our nation. Newport deserves to live up to its potential and have a thriving city centre. All Welsh towns and cities deserve this, which is why it is so critical that this decision is debated, scrutinised and hopefully reviewed.

If you are in any doubt about the seriousness of this matter, I would encourage you to walk the length of Commercial Street and through Friars Walk and count the number of empty shops, which I personally find quite soul destroying. Newport has a lot of potential and the very hard work in recent years with developments like Chartist Tower would be potentially wasted if we do not get the right kind of support for key businesses in our city, now.

A debate in the Senedd is needed, urgently, on this matter -- to protect Welsh towns and cities from economic damage.

Thank you for your time considering this matter.

**P-05-967 Welsh Government to amend its NDR relief policy to help keep Debenhams stores open in Wales, Correspondence – Interested Party to Chair: further comments, 23.05.20**

The recent news from Trago Mills in Merthyr also highlights why disadvantaging big employers is dangerous for job security. It is also worth noting that retail employs a disproportionate number of women so it is women who always bear the economic brunt when retailers close stores or go bust. For places like Newport and Merthyr, stores like Trago Mills and Debenhams play a huge role in our wider economies and the aspirations of our towns and cities.

I would also like it noted in my comments that business rates need urgent and major reform more generally. They are contributing, in a serious way, to the decline of our high streets. The boarded up shops we see in places like Newport are on the whole due to the disappearance of major retailers. Big retail needs help as much as small independents. The rate relief for 2020 could have been the start of a broader discussion on that and I am worried that the Welsh Government are still not grasping this.

Thank you again.

Best wishes,



Eich cyf/Your ref P-05-967  
Ein cyf/Our ref: RE/00336/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair of the Petitions Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

9 June 2020

Dear Janet,

Thank you for your letter as about non-domestic rates.

I recognise the importance of Debenhams stores to communities across Wales. The Welsh Government is providing non-domestic rates relief to the majority of Debenhams stores in Wales, with our support totalling over £1 million. I have also met the Chair of Debenhams to learn more about the company's position and I have asked officials to explore whether alternative support might be an option.

I am grateful for the hard work of local authorities which are home to Debenhams stores in Wales in working with the Welsh Government to find a viable mechanism for supporting the business. A number have been considering how they can use their discretionary powers to assist the continued presence of the stores in their areas. I am pleased that Newport City Council and Swansea Council have agreed to defer the non-domestic rates liability for the Debenhams stores in their city centres until 31 March 2021.

I do need to emphasise that the decision to set the threshold for the rates relief at £500,000 was not taken lightly. I also need to stress that, unlike the UK Government, we have relatively little control over the overall size of our budget, so face very difficult choices in the current crisis.

I must also make it clear that the financial challenges that Debenhams faces cannot be attributed solely to its rates liability, nor could the future of Debenhams be guaranteed by the availability of rates relief. Debenhams has already announced the closure of a number of its stores across the UK, including some which were eligible for relief.

The Welsh Government is continuing to consider this matter, and we appreciate the challenges Debenhams faces and the impact store closures would have on communities in

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wales. We are working with local authorities to consider how our high streets can be best supported to ensure vibrant and enduring business activity and a strong retail presence.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

**P-05-967 Welsh Government to amend its NDR relief policy to help keep Debenhams stores open in Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 09.06.20**

Thank you for your email. I do understand that Debenhams is already in trouble, but the Swansea branch in particular is one of the best-performing of its stores. There is every reason to believe that if it reopens in more normal times then it will survive. The discretionary powers being used by Swansea and Newport Councils amount to a temporary measure, and just defers the liability until 31 March rather than expunging it.

The threshold for rates relief being set by the Welsh Government of £500,000 may well assist a lot of smaller businesses, but the larger stores with higher rateable value act as anchor stores, and the footfall they attract into town and city centres helps sustain those smaller retail businesses. If these anchor stores disappear then other, smaller businesses may fail as well. That is why Wales should have followed the model of relief adopted by the UK Government.

I note that talks are ongoing with Debenhams and I would hope that the committee will explore further with the Minister the options being explored in these talks and their likelihood of success in securing the future of Debenham stores in Wales. There are a lot of jobs at stake here, as well as the future viability of many shopping centres, already in trouble because of the Covid lockdown, and not all those people at risk of losing their jobs work for Debenhams.

I am happy to expand on these views to the committee if required. Thank you

Peter

## **P-05-952 Dylid mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonathan Parsons, ar ôl casglu cyfanswm o 1,096 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae gan Gymru lawer o enwau lleoedd sydd wedi'u Seisnigeiddio'n ddiangen, ac sydd yn aml wedi'u disodli gan ffurfiau Seisnigedig am ddim rheswm da. Nid yn unig y mae hyn yn amharchus i'r Cymry a'r iaith Gymraeg, ond mae'r Gymraeg, yn ôl y gyfraith, i fod ar sail gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru.

Mae defnyddio enwau llefydd fel Trevor (o'r gair Cymraeg Trefor) ger Wrecsam nid yn unig yn tanseilio, ond yn cuddio etymolegau enwau o'r fath! Mae hyn yn sicr yn annerbyniol.

Rwyf i, a'r rhai sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Cynulliad Cymru i weithredu ac i newid y ffurfiau Seisnigaidd hyn o enwau Cymraeg, drwy Gymru gyfan, ac i adfer eu sillafiadau Cymraeg gwreiddiol. Nid yw'r ddeiseb yn mynd mor bell â gofyn am ddiddymu enwau Saesneg lle mae enw Cymraeg yn bodoli hefyd (Cardiff nesaf at Gaerdydd, ac ati).

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- De Clwyd
- Gogledd Cymru

# P-05-952: Dylid mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg

Y Pwyllgor Deisebau | 28 Ebrill 2020  
Petitions Committee | 28 April 2020

Cyfeirnod: RS20/12391-1

Rhif y ddeiseb: P-05-952

Teitl y ddeiseb: Dylid mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg

**Testun y ddeiseb:** Mae gan Gymru lawer o enwau lleoedd sydd wedi'u Seisnigeiddio'n ddiangen, ac sydd yn aml wedi'u disodli gan ffurfiau Seisnigedig am ddim rheswm da. Nid yn unig y mae hyn yn amharchus i'r Cymry a'r iaith Gymraeg, ond mae'r Gymraeg, yn ôl y gyfraith, i fod ar sail gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru.

Mae defnyddio enwau llefydd fel Trevor (o'r gair Cymraeg Trefor) ger Wrecsam nid yn unig yn tanseilio, ond yn cuddio etymolegau enwau o'r fath! Mae hyn yn sicr yn annerbyniol.

Rwyf i, a'r rhai sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Cynulliad Cymru i weithredu ac i newid y ffurfiau Seisnigaid hyn o enwau Cymraeg, drwy Gymru gyfan, ac i adfer eu sillafiadau Cymraeg gwreiddiol. Nid yw'r ddeiseb yn mynd mor bell â gofyn am ddiddymu enwau Saesneg lle mae enw Cymraeg yn bodoli hefyd (Cardiff nesaf at Gaerdydd, ac ati).



## 1. Cyd-destun

Mae enwau pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru wedi datblygu dros gyfnod o ddwy fileniwm. Tra bod **enwau'r rhan fwyaf o leoedd yng Nghymru yn Gymraeg**, mae enwau llawer yn tarddu o'r Saesneg, Ffrangeg, Lladin, Gwyddeleg, Llychlyneg a Brythoneg (a esblygodd i'r iaith Gymraeg rydyn ni'n ei siarad heddiw).

Mae'r enghreifftiau o **leoedd cyfarwydd sydd ag enwau Cymraeg yn unig** yn cynnwys Aberystwyth, Bangor, Tonypany, Penarth a Phontypridd, ymhlith eraill. Fodd bynnag, mae sawl enghraifft o ddinasoedd, trefi a phentrefi yng Nghymru sydd ag enw Cymraeg ac enw Saesneg.

Yn achos rhai o'r lleoedd hynny sydd ag enw Cymraeg ac enw Saesneg, mae **sillafiad ac ynganiad yr enwau'n debyg** yn y ddwy iaith. Lleoedd fel:

- Caerffili – *Caerphilly*;
- Caerdydd – *Cardiff*;
- Merthyr Tudful – *Merthyr Tydfil*;
- Treorci – *Treorchy*; a
- Rhuthun – *Ruthin*.

Mewn nifer o'r lleoedd hyn, mae'n debygol iawn fod yr enwau wedi'u Seisnigeiddio dros amser oherwydd cyfres o newidiadau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn wir ym mhob achos. Mae yna enghreifftiau o enwau Saesneg fel *Flint* (Y Fflint), *Wrexham* (Wrecsam) a *Caldicot* (Cil-y-coed) sydd wedi'u mabwysiadu i'r Gymraeg yn hytrach nag fel arall. Yn yr un modd, yr enw gwreiddiol ar Fiwmares oedd yr enw Ffrangeg Normanaidd – *Beaumaris*.

Mae yna leoedd eraill yng Nghymru sydd â dau enw gwahanol nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt. Er enghraifft:

- *Newport* – Casnewydd (ystyr y Gymraeg yw castell newydd);
- *Swansea* (sy'n deillio o'r Llychlyneg ac yn golygu 'ynys Svein') – Abertawe (ystyr y Gymraeg yw aber afon Tawe);
- *Brecon* (sy'n deillio o hen deyrnas Gymreig Brycheiniog) – Aberhonddu (daw'r enw Cymraeg o'r afon Honddu)
- *Anglesey* (sy'n deillio eto o'r iaith Llychlyneg, *Ongul*) – cofnodwyd yr enw Cymraeg Môn yn gyntaf fel yr enw Lladin *Mona*.



Yn ei erthygl, [Enw da yw'r trysor gorau](#), ar Wales.com (gwefan Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru), mae Dr. Dylan Foster Evans, arbenigwr ar enwau lleoedd Cymraeg, yn ysgrifennu am esblygiad llawer o enwau lleoedd Cymru, a sut mae rhai wedi'u Seisnigeiddio:

Mewn mannau eraill, cafodd enwau Cymraeg eu newid trwy gael eu benthg i'r Saesneg. Er enghraifft, mae'r enw *Dinbych* ('y gaer fach') yn cynnwys y sain *ch* a ddiflannodd o'r iaith Saesneg rai canrifoedd yn ôl. Felly mae'r ddau le sydd â'r enw *Dinbych* yn Gymraeg wedi rhoi'r ffurfiau Saesneg *Tenby* yn Sir Benfro a *Denbigh* yn Sir Ddinbych (sy'n odli â'i gilydd, er gwaethaf y sillafu gwahanol). Ac er mwyn osgoi dryswch yn y Gymraeg, mae *Tenby*, sy'n dref ar lan y môr, yn cael ei galw'n *Dinbych-y-pysgod*.

Wrth gwrs, cafwyd enghreifftiau dros y blynyddoedd o roi'r gorau'n raddol i dderbyn neu ddefnyddio rhai enwau lleoedd Cymraeg a oedd wedi'u Seisnigeiddio, gan gynnwys *Caernarvon* (Caernarfon), *Conway* (Conwy) a *Llanelly* (Llanelli).

Mae yna hefyd fannau lle mae anghytuno parhaus ynghylch a ddylid defnyddio'r sillafiad Cymraeg yn gyfan gwbl ai peidio, fel yn [Varteg \(Farteg\)](#) sydd wedi cael rhywfaint o sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar.

## 2. Y Panel Safoni Enwau Lleoedd

Mae [Comisiynydd y Gymraeg](#), sef corff annibynnol a sefydlwyd gan [Fesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#), yn gyfrifol am roi cyngor ar **ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg** i unigolion a sefydliadau. Mae rhestr o ffurfiau safonol yr enwau Cymraeg ar bentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru bellach [ar gael fel adnodd ar-lein](#) at ddefnydd pawb. Mae'n cael ei diweddarau'n barhaus.

Sefydlodd y Comisiynydd [panel o arbenigwyr](#) i weithio ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg ac i wneud argymhellion yn hyn o beth. Yn ôl gwefan y Comisiynydd, mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd 'yn ystyried **ystyr, hanes a tharddiad yr enwau lleoedd** ynghyd â'r **defnydd cyfredol** ohonynt' wrth lunio ei argymhellion. Mae'r panel hefyd yn dilyn [Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru](#) (PDF 243KB). Yn Adran 9 - *Ffurfiâu Deuol*, nodir y cyngor a ganlyn ar gyfer y panel:

Dylid anelu at arfer **un ffurf yn unig** pan nad oes ond **llythyren neu ddwy o wahaniaeth** rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg', **gan dueddu at y ffurf Gymraeg**. Dyma hefyd ddymuniad yr Arolwg Ordnans ac Awdurdodau'r Priffyrdd. Eithr dylid cydnabod amrywiadau sefydlog (Caeriw/Carew, Biwmares/Beaumaris, Y Fflint/Flint, Wrecsam/Wrexham).

Cafodd y **Rhestr** ei lansio ar 20 Mehefin 2018, ac mae'n bosibl chwilio drwy'r 3,475 o enwau lleoedd sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd. O ran Trefor/*Trevor*, sef y pentref a nodwyd yn y ddeiseb ei hun, **nid yw wedi ei gynnwys ar hyn o bryd** ar y rhestr hon.

Mae'r Comisiynydd yn nodi ar y wefan, os na fydd enw lle yng Nghymru wedi'i gynnwys ar y *Rhestr* gyhoeddedig, dylai unigolion lenwi **ffurflen ymholiad** fer gan nodi enw, cyfeirnod grid ac ardal awdurdod lleol y lle dan sylw.

### 3. Camau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd **deiseb yn galw ar y Cynulliad i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru** yn 2018. Dyma'r cam penodol yr oedd y deisebydd yn galw amdano:

Dylid diogelu hen enwau Cymraeg ar leoedd ac adeiladau o dan y gyfraith, a dylai fod yn orfodol i ddatblygiadau newydd gael enwau Cymraeg er mwyn diogelu ein diwylliant a'n hiaith unigryw.

Wrth ymateb i'r ddeiseb, **amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweithgarwch yn y maes hwn** (PDF 198KB). Ar ôl pasio **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**, nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol. Dywedodd:

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y rhestr pan fydd eu swyddogaethau'n cynnwys enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynwys enwi neu ailenwi strydoedd, eiddo a llefydd eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy barti arall. Y bwriad yw y bydd y broses o gynnal y rhestr a'r canllawiau statudol gyda'i gilydd yn arwain at ostwng nifer y newidiadau ffurfiol i enwau eiddo hanesyddol.

Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru:

...nid yw'r mesurau hyn yn mor bell â diogelu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i ddiogelu enwau lleoedd

hanesyddol yn statudol wrth fynd ati i ddatblygu Deddf 2016, pan gyflwynwyd nifer o sylwadau tebyg i'r ddeiseb bresennol. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion arwyddocaol, gan gynnwys gorfodi, beichiau ychwanegol posibl ar awdurdodau lleol a hawliau dynol, yn milwrio yn erbyn hynny.

Ym mis Ionawr 2017, enillodd Dai Lloyd AC y balot i gynnig Bil Aelod: [Datblygu y Bil Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru](#). Darparodd Dai Lloyd AC y [Memorandwm Esboniadol \(PDF 195KB\)](#) a ganlyn cyn y [ddadl yn y Cyfarfod Llawn](#), a gynhaliwyd ar 15 Mawrth.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil, ac ni chafodd ganiatâd i fwrw ymlaen.

Fel rhan o'i ymchwiliad yn 2017 i'r [Amgylchedd Hanesyddol](#), bu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn trafod y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Nododd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ati i adolygu'r mater a bod yn barod i gyflwyno mesur diogelu arall ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol os na fydd y rhestr bresennol yn effeithiol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-952  
Ein cyf/Our ref EM/00207/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru

17 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am ohebu â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr alwad ar y Pwyllgor Deisebau i ddychwelyd at ddefnyddio sillafiadau Cymraeg o enwau lleoedd. Rwy'n ymateb i'r mater hwn, gan ei fod yn dod o dan gylch gorchwyl fy mhortffolio i. Rwy'n ymddiheuro am beidio ag ymateb yn gynt.

Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am roi cyngor i unigolion a sefydliadau am ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae Rhestr y Comisiynydd o *Enwau Lleoedd Safonol Cymru* yn adnodd ar-lein defnyddiol, y gellir ei chwilio neu y gellir ei lawrlwytho, i ddod o hyd i enwau safonol pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru. I weld y rhestr, ewch i:

[www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Lawrlwytho.aspx](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Lawrlwytho.aspx)

Fodd bynnag, rôl y Comisiynydd yw awgrymu ffurfiau a sillafiadau enwau lleoedd, yn hytrach na'u gorfodi.

Rwy'n ymwybodol bod diogelu enwau lleoedd wedi'i ystyried gan y Bwyllgor Deisebau o'r blaen. Er enghraifft, cafodd "P-05-819 Enwau Lleoedd Cymru – Bil Diogelu a Hyrwyddo" ei ystyried gan y Pwyllgor yn 2018. Mae'r ddolen gyswllt isod i drafodion y Pwyllgor yn cynnwys yr ymateb a anfonwyd i'r Pwyllgor gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, sy'n amlinellu'r gofynion yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. <https://busnes.senedd.cymru/ielIssueDetails.aspx?Id=21901&PlanId=0&Opt=3>.

O ran yr ymdrechion ar lefel Llywodraeth Leol, Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i gadw golwg ar drefniadau llywodraeth leol. Gallai'r newidiadau a gynigir gynnwys newid enwau unedau gweinyddol Cymru. Ond, ni fyddai'r newidiadau a gynigir i enwau'r unedau hynny yn effeithio ar enw tref, pentref neu ddinas yn yr unedau gweinyddol hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o broses adolygu'r Comisiwn, byddwn yn ceisio barn Comisiynydd y Gymraeg am enwau arfaethedig yr unedau gweinyddol. Os na fydd y Comisiwn a'r Comisiynydd yn cytuno ar un neu fwy nag un o'r enwau arfaethedig, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw gwneud penderfyniad ar yr enw.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chadw rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Caiff y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ei chynnal ar ein rhan gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bellach, mae'n cynnwys bron 700,000 o gofnodion, ond mae'n adnodd deinamig, a bydd y rhestr yn parhau i dyfu. Mae'r adnodd yn un gwerthfawr ar gyfer olrhain y gwahanol ffurfiau ar enwau anheddiadau yng Nghymru, gan ei fod yn ceisio cofnodi enwau lleoedd hanesyddol y gellir pennu'n hyderus iddynt gael eu hadeiladau yn y lleoliad cyn 1919. I weld y rhestr, ewch i:

<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi a'r Pwyllgor wrth ichi ystyried y Deiseb.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language

**P-05-961 Gostwng yr oedran ar gyfer sgrinio canser y fron yng Nghymru o 50 i 30**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rachel Candy, ar ôl casglu cyfanswm o 76 lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb:**

Cafodd cyfaill i mi ei diagnosio â chanser y fron cyfnod 3 yn 36 oed. Pe bai hi wedi cael ei sgrinio, byddai hyn wedi cael ei ganfod a'i drin yn llawer cynt.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

# Gostwng yr oedran ar gyfer sgrinio canser y fron yng Nghymru o 50 i 30

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Mehefin 2020  
Petitions Committee | 23 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12730-3

Rhif y ddeiseb: P-05-961

Teitl y ddeiseb: Gostwng yr oedran ar gyfer sgrinio canser y fron yng Nghymru o 50 i 30

Geiriad y ddeiseb: Cafodd cyfaill i mi ei diagnosio â chanser y fron cyfnod 3 yn 36 oed. Pe bai hi wedi cael ei sgrinio, byddai hyn wedi cael ei ganfod a'i drin yn llawer cynt.

## 1. Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnig rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar sail poblogaeth ledled Cymru, gan gynnwys [Bron Brawf Cymru](#).

Mae'r broses sgrinio'n chwilio am ganser y fron cyn i'r symptomau ymddangos ac mae'n cynnwys mamogramau, sef pelydrau-x o'r fron. Os caiff canser y fron ei ddarganfod yn gynnar, mae'r driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.



Mae gwefan Bron Brawf Cymru yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn yn ymwneud â'i [rhaglen sgrinio](#) canser y fron:

- Caiff merched rhwng **50 a 70** oed eu gwahodd yn awtomatig i gael pelydr-X o'u bronnau bob tair blynedd.
- Mae Bron Brawf Cymru yn cael enwau'r merched oddi ar restrau meddygon teulu ac maent yn gwahodd merched o bob meddygfa yn eu tro. Ni fydd merched o reidrwydd yn cael eu gwahodd yn ystod y flwyddyn y byddant yn troi'n 50 oed. Os ydynt wedi cofrestru â meddyg, cânt wahoddiad i gael eu sgrinio cyn eu pen-blwydd yn 53 oed.
- Gall merched [dros 70 oed](#) ofyn am apwyntiad sgrinio bob tair blynedd.
- Mae'r sgrinio'n cael ei wneud mewn canolfannau sgrinio ac mewn unedau teithiol hygyrch ledled Cymru. Dewis y claf yw cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio.
- Drwy'r sgrinio, mae'n bosibl dod o hyd i ganserau pan fyddant yn rhy fach i'w gweld neu eu teimlo. Ni fydd y sgrinio'n darganfod pob canser, ac nid oes modd gwella rhai mathau o ganser.
- Os yw mamogram yn dangos abnormaledd posibl, caiff y claf apwyntiad yn un o ganolfannau sgrinio Bron Brawf Cymru. Bydd meddyg yn archwilio'r claf ac efallai caiff gynnig profion eraill.

### Merched dan 50 oed

Ni all Bron Brawf Cymru gynnig apwyntiad i ferched dan 50 oed. Mae Bron Brawf Cymru yn esbonio bod y rhaglen sgrinio o fantais i ferched dros 50 oed yn unig. Os yw cleifion o dan 50 oed yn dangos symptomau, dylent gysylltu â'u meddyg i gael cyngor.

Yn ei [Chynllun Cyflenwi Canser ar gyfer Cymru 2016-2020](#), mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod cyflwyno rhaglenni sgrinio yng Nghymru yn seiliedig ar gyngor arbenigol [Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU](#) a [Phwyllgor Sgrinio Cymru](#) i sicrhau bod y rhaglenni'n gwneud mwy o les na niwed a'u bod yn gost-effeithiol.

Er nad yw astudiaethau ymchwil wedi dangos y byddai sgrinio merched cyn iddynt droi'n 50 oed o fudd amlwg i'r boblogaeth yn gyffredinol, mae Bron Brawf Cymru yn nodi y gallai sgrinio'n gynharach fod o fudd i ferched sy'n fwy tebygol o gael canser y fron oherwydd [hanes y teulu](#). Ni wyddom beth yw'r cydbwysedd rhwng y manteision a'r niwed sydd ynghlwm wrth sgrinio merched iau sy'n



wynebu risg gymedrol neu uchel o ddatblygu canser y fron, gan nad oes ymchwil wedi'i gynnal mewn perthynas â'r grŵp penodol hwn o ferched.

Mae Bron Brawf Cymru yn cynnig gwasanaeth sgrinio'r fron i ferched sy'n byw yng Nghymru, sydd wedi cael eu hasesu gan y **Gwasanaeth Geneteg** ac y gwelwyd eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu canser y fron.

### Adroddiadau ystadegol

Cyhoeddodd Bron Brawf Cymru **Adroddiad Ystadegol Blynyddol 2018-19** ym mis Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb manwl o'r gwaith a wnaed ac mae'n cynnwys ffigurau ar y gwaith sgrinio, nifer y merched a gafodd wahoddiad, a'r nifer a dderbyniodd y gwahoddiad.

## 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei ohebiaeth â'r Pwyllgor, dyddiedig 28 Mai 2020, dywed y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Cymru, fel gweddill y DU, yn dilyn cyngor annibynnol, arbenigol Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC). Nid yw merched heb symptomau yn cael bod yn rhan o'r rhaglen sgrinio yn y DU gan mai cyngor UKNSC yw bod y dystiolaeth bresennol yn dangos nad yw'r manteision yn drech na'r niwed posibl. Mae pob argymhelliad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac os bydd UKNSC yn argymhell newid yr ystod oedran ar gyfer sgrinio'r fron, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir rhoi hyn ar waith yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'r hyn y mae UKNSC yn ei argymhell mewn perthynas â sgrinio'r fron [yma](#).

Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi bod y manteision a'r niwed cysylltiedig â sgrinio canser y fron wedi'u hystyried mewn **adolygiad annibynnol** a gyhoeddwyd yn 2012.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Vaughan Gething AS/MS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02898/20

Janet Finch-Saunders AS/MS  
Chair  
Petitions Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff  
CF99 1SN

28 May 2020

Dear Janet,

Thank you for your letter of 4 May, as Chair of the Petitions Committee, regarding Petition P-05-961 to lower the age for breast cancer screening in Wales from 50 to 30.

Wales, like the rest of the UK, follows the independent, expert advice of the UK National Screening Committee (UKNSC). Routine breast screening of women under 50 without any symptoms is not offered in the UK because the UKNSC advises that the current evidence indicates that the benefits of screening do not outweigh the known harms. At present, for breast cancer, the recommended routine screening age range is between 50 and 70 years, with screening offered on a three-yearly basis. All recommendations are subject to regular review and should the UKNSC recommend changing the age range for breast screening, the Welsh Government will consider how this can be delivered in Wales. The UKNSC recommendation on breast screening can be found at:

<https://legacyscreening.phe.org.uk/breastcancer>

The benefits and harms of breast cancer screening were considered in an independent review published in 2012 at: [https://about-cancer.cancerresearchuk.org/about-cancer/breast-cancer/getting-diagnosed/screening/screening-2012-review?\\_ga=2.195904684.1062693435.1589284068-436743268.1589284068](https://about-cancer.cancerresearchuk.org/about-cancer/breast-cancer/getting-diagnosed/screening/screening-2012-review?_ga=2.195904684.1062693435.1589284068-436743268.1589284068)

If any patient is concerned about symptoms they should contact their GP to discuss their concerns.

Yours sincerely,

**Vaughan Gething AS/MS**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 94  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

### **P-05-963 Dylid ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi unrhyw fwyd sydd dros ben i elusennau**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan 'Crosskeys My World My Home Group', ar ôl casglu cyfanswm o 84 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Ledled y byd, mae traean o'r holl fwyd a gynhyrchir yn flynyddol yn cael ei wastraffu. Yn y DU, mae hynny'n cyfateb i oddeutu 9.5 miliwn tonnell, sy'n wastraff enfawr o adnoddau ac yn sefyllfa sy'n rhoi pwysau diangen ar ein hamgylchedd. Er gwaethaf hyn, rhwng 2018 a 2019, bu'n rhaid i elusen Trussell Trust ddosbarthu 1.6 miliwn o borseli i fanciau bwyd ledled y DU, y nifer uchaf erioed. Yn ein barn ni, ni ddylid taflu bwyd i ffwrdd pan mae pobl yn llwgu yn y wlad hon.

Ym mis Chwefror 2016, penderfynodd Ffrainc weithredu mewn perthynas â'r broblem o wastraff bwyd, gan orfodi archfarchnadoedd i roi'r holl fwyd sy'n agosáu at ei ddyddiad 'gwerthu erbyn' i elusennau. Mae'r Ddeddf dan sylw bellach yn atal 46,000 tonnell o fwyd rhag cael ei daflu bob blwyddyn, ac wedi arwain at gynnydd o dros 20 y cant mewn rhoddion i fanciau bwyd yn Ffrainc.

Yn 2019, cafodd y gyfraith hon ei hystyngiadau i gynnwys y diwydiant arlwyio sefydliadol a'r diwydiant bwyd-amaeth. Credwn y GALLWN WNEUD YR UN PETH yma yng Nghymru, a hynny drwy arbed bwyd bwydadwy ac atal archfarchnadoedd, bwyta cadwyn a chyflenwyr bwyd ein cenedl rhag anfon bwyd da i safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gweithio gyda Fare Share Cymru i ailddosbarthu bwydydd sy'n cyfateb i dros 8 miliwn o brydau ers 2011.

Drwy fabwysiadu'r datrysiad a ddefnyddir yn Ffrainc, gallwn gymryd cam llawer mwy sylweddol tuag at roi terfyn ar newyn yng Nghymru, yn ogystal â diwallu nod Llywodraeth Cymru o haneru gwastraff bwyd erbyn 2025. Byddai hynny hefyd yn ein rhoi ar y llwybr i fod yn ddiwastraff erbyn 2050.

Llofnodwch y ddeiseb hon yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i basio Deddf yn debyg i'r un yn Ffrainc, a hynny er mwyn

cymryd safiad YN ERBYN gwastraff bwyd ac O BLAID y rhai sydd mewn angen.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y lincs a ganlyn:

Deddf gwastraff bwyd Ffrainc yn cael eu hystyngiadau i fusnesau bwyd-amaeth ac arlwyo

<https://iegpolicy.agribusinessintelligence.informa.com/PL222646/Frances-food-waste-law-extended-to-agrifood-and-catering-businesses>

A yw Deddf Gwastraff Bwyd arloesol Ffrainc yn Gweithio?

<https://pulitzercenter.org/reporting/frances-groundbreaking-food-waste-law-working>

Cyfraith Ffrainc yn gwahardd gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd

<https://www.theguardian.com/world/2016/feb/04/french-law-forbids-food-waste-by-supermarkets>

Nod Llywodraeth Cymru yw haneru gwastraff bwyd erbyn 2025

<https://environmentjournal.online/articles/welsh-government-aims-halve-food-waste-2025/>

Trussell Trust – <https://www.trusselltrust.org/>

Fare Share Cymru – <http://www.fareshare.cymru/cy/home/>

WRAP Cymru – <http://www.wrapcymru.org.uk/>

### **Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Islwyn
- Dwyrain De Cymru

# Teitl: P-05-963 Dylid ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi unrhyw fwyd sydd dros ben i elusennau

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Mehefin 2020  
Petitions Committee | 23 June 2020

Cyfeirnod: RS20/12730-4

**Rhif y ddeiseb:** P-05-963

**Teitl y ddeiseb:** Dylid ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi unrhyw fwyd sydd dros ben i elusennau

**Geiriad y ddeiseb:** Ledled y byd, mae traean o'r holl fwyd a gynhyrchir yn flynyddol yn cael ei wastraffu. Yn y DU, mae hynny'n cyfateb i oddeutu 9.5 miliwn tonnell, sy'n wastraff enfawr o adnoddau ac yn sefyllfa sy'n rhoi pwysau diangen ar ein hamgylchedd. Er gwaethaf hyn, rhwng 2018 a 2019, bu'n rhaid i elusen Trussell Trust ddosbarthu 1.6 miliwn o barseli i fanciau bwyd ledled y DU, y nifer uchaf erioed. Yn ein barn ni, ni ddylid taflu bwyd i ffwrdd pan mae pobl yn llwgu yn y wlad hon.

Ym mis Chwefror 2016, penderfynodd Ffrainc weithredu mewn perthynas â'r broblem o wastraff bwyd, gan orfodi archfarchnadoedd i roi'r holl fwyd sy'n agosáu at ei ddyddiad 'gwerthu erbyn' i elusennau. Mae'r Ddeddf dan sylw bellach yn atal 46,000 tonnell o fwyd rhag cael ei daflu bob blwyddyn, ac wedi arwain at gynnydd o dros 20 y cant mewn rhoddion i fanciau bwyd yn Ffrainc.

Yn 2019, cafodd y gyfraith hon ei hystyngiadau i gynnwys y diwydiant arlwyio sefydliadol a'r diwydiant bwyd-amaeth. Credwn y GALLWN WNEUD YR UN PETH yma yng Nghymru, a hynny drwy arbed bwyd bwydadwy ac atal archfarchnadoedd, bwytai cadwyn a chyflenwyr bwyd ein cenedl rhag anfon bwyd da i safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gweithio gyda Fare Share Cymru i ailddosbarthu bwydydd sy'n cyfateb i dros 8 miliwn o brydau ers 2011.

Drwy fabwysiadu'r datrysiad a ddefnyddir yn Ffrainc, gallwn gymryd cam llawer mwy sylweddol tuag at roi terfyn ar newyn yng Nghymru, yn ogystal â diwallu nod Llywodraeth Cymru o haneru gwastraff bwyd erbyn 2025. Byddai hynny hefyd yn ein rhoi ar y llwybr i fod yn ddiwastraff erbyn 2050.



Llofnodwch y ddeiseb hon yn galw ar Cynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i basio Deddf yn debyg i'r un yn Ffrainc, a hynny er mwyn cymryd safiad YN ERBYN gwastraff bwyd ac O BLAID y rhai sydd mewn angen.

**Gwybodaeth ychwanegol:** Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y lincs a ganlyn:

Estynwyd cyfraith Ffrainc ynghylch gwastraff bwyd i fusnesau bwyd-amaeth ac arlwyo <https://iegpolicy.agribusinessintelligence.informa.com/PL222646/Frances-food-waste-law-extended-to-agrifood-and-catering-businesses> [yn agor mewn ffenestr newydd]

A yw Deddf Gwastraff Bwyd arloesol Ffrainc yn Gweithio?

<https://pulitzercenter.org/reporting/frances-groundbreaking-food-waste-law-working> [yn agor mewn ffenestr newydd]

Mae cyfraith Ffrainc yn gwahardd gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd

<https://www.theguardian.com/world/2016/feb/04/french-law-forbids-food-waste-by-supermarkets> [yn agor mewn ffenestr newydd]

Nod Llywodraeth Cymru yw haneru gwastraff bwyd erbyn 2025

<https://environmentjournal.online/articles/welsh-government-aims-halve-food-waste-2025/> [yn agor mewn ffenestr newydd]

Ymddiriedolaeth Trussell - <https://www.trusselltrust.org/> [yn agor mewn ffenestr newydd]

FareShare Cymru - <http://www.fareshare.cymru/en/home/> [yn agor mewn ffenestr newydd]

WRAP Cymru - <http://www.wrapcymru.org.uk/> [yn agor mewn ffenestr newydd]

## Cefndir

Yn ôl [ymchwil gan WRAP \(Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau\)](#) amcangyfrifir bod 10.2 filiwn tonnall o wastraff bwyd yn y DU yn 2015 (156 kg / person / blwyddyn). Roedd y mwyafrif o hyn - 7.1 miliwn tonnall - yn wastraff bwyd cartref, a daeth y 3.1 miliwn tonnall arall o'r gadwyn gyflenwi bwyd (tu hwnt i gât y fferm). O'r ffigur hwn, daeth **261,000 tonnall o wastraff bwyd o'r sector manwerthu, a daeth 754,000 tonnall o'r gwasanaethau lletygarwch a bwyd.**

Amcangyfrifodd yr ymchwil mai gwerth y bwyd a wastraffwyd yn y DU yn 2015 oedd £20 biliwn. Gwerth y bwyd a wastraffwyd gan y sector manwerthu oedd £0.8 biliwn, a'r ffigur ar gyfer y gwasanaethau lletygarwch a bwyd oedd £2.9 biliwn.

Cynhaliwyd yr ymchwil i roi llinell sylfaen ar gyfer [Ymrwymiad Courtauld 2025](#), sef cyfres o gytundebau gwirfoddol gyda'r nod o wella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau effaith carbon ac amgylcheddol ehangach y sector bwyd yn y DU. Mae Courtauld yn cynnwys gwastraff bwyd ac [mae'r archfarchnadoedd mawr wedi ymrwymo iddo.](#)

Mae adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan WRAP ym mis Ionawr 2020 yn dangos gostyngiad 7 y cant yng ngwastraff bwyd yn gyffredinol rhwng 2015 a 2018, ond cynnydd 6 y cant yng ngwastraff bwyd manwerthu i 280,000 tonnelli, gyda chynnydd 7 y cant i 1.1 miliwn tonnelli hefyd yng ngwasanaethau lletygarwch a bwyd.

## Deddfwriaeth gwastraff bwyd Ffrainc

Yn 2016, mabwysiadodd Ffrainc ddeddfwriaeth gyda'r nod o atal archfarchnadoedd mawr rhag taflu bwyd bwydadwy, a hynny drwy eu gorfodi i weithio gyda chyrff anllywodraethol gwastraff bwyd sy'n gallu ailddosbarthu bwyd a fyddai fel arall wedi cael ei daflu i ffwrdd. Gellir dirwyo siopau am beidio â chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r ddeddfwriaeth hon a'i heffeithiolrwydd wedi bod yn destun llawer o drafod yng nghyfyngau'r sector bwyd; gellir gweld enghreifftiau yn y lincs a ddarparwyd uchod gan y deisebydd a hefyd yma, yma ac yma.

## Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn 2017, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, uchelgais Llywodraeth Cymru i haneru gwastraff bwyd yng Nghymru erbyn 2025, yn erbyn llinell sylfaen 2006-07.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar ei strategaeth economi gylchol arfaethedig "Mwy nag ailgychu" rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Ebrill 2020. Mae'r ddogfen ymgynghori (PDF 2MB) yn nodi:

Byddwn ar flaen y gad o ran gwaredu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan a gweithio gyda busnesau o'r fferm i'r fforc i leihau gwastraff a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl.

Ac

Er mwyn hyrwyddo mwy o ailgylchu o'r sector busnes a chyhoeddus, **ein nod yw ei gwneud yn ofynnol i ailgylchu ymhob lleoliad annomestig**, gan wahanu gwastraff yn y ffordd y mae cartrefi eisoes yn ei wneud. [Pwyslais gan y Gwasanaeth Ymchwil]

Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad.

## Llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor

Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb hon ar 26 Mai 2020. I gryno, dywed y llythyr:



- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phrif ddarparwyr banciau bwyd i ddeall y sefyllfa bresennol i bob banc bwyd yng Nghymru.
- Yn ystod pandemig y Coronafeirws, cafodd banciau bwyd y DU sicrwydd y cânt roddion gan archfarchnadoedd, gan gynnwys £15 miliwn gan Tesco, £10 miliwn gan Morrisons, £5 miliwn gan Asda ac £1.5 miliwn gan y Co-op.
- Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi cadarnhau bod gan ei banciau bwyd ledled Cymru ddigon o gyflenwad bwyd a gwirfoddolwyr i ateb y galw, ac nad oes angen cymorth ariannol arnynt gan Lywodraeth Cymru. Mae tua 50 y cant o fanciau bwyd yng Nghymru yn dod o dan ymbarél Ymddiriedolaeth Trussell).
- Mae lleihau gwastraff bwyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi bwyd i sicrhau bod gwastraff yn cael ei leihau a bod stoc dros ben yn cael ei ailddosbarthu yn ôl yr angen.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r camau gwirfoddol a gymerwyd gan y sector o dan yr Ymrwymiad Courtauld a bydd yn monitro eu heffaith. Pe bai'n credu bod angen mwy o weithredu, dylai fod gan Lywodraeth Cymru'r opsiwn i fandadu ailddosbarthu bwyd dros ben o dan y pwerau a geisir ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Fil Amgylchedd y DU.

## Camau gweithredu'r Senedd

Er i wastraff bwyd gael ei godi fel mater cyffredinol yn gymharol aml yn y Senedd, nid yw gwastraff bwyd archfarchnadoedd fel mater penodol wedi cael ei drafod yn fanwl ers [dadl fer Julie Morgan AS ar wastraff bwyd yn 2015](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-963  
Ein cyf/Our ref LG/01207/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

26 Mai 2020

Annwyl Janet

Diolch am eith llythyr dyddiedig 7 Mai ynghylch y ddeiseb i geisio ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi bwyd dros ben i elusennau.

Mae'r system cyflenwi bwyd wedi bod o dan bwysau mawr yn sgil y pandemig COVID-19 presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod unigolion yng Nghymru sy'n arbennig o agored i niwed, sy'n wynebu anawsterau ariannol ac sydd angen cymorth ar frys.

Mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin cysylltiadau â dau randdeiliad banc bwyd mawr yng Nghymru – Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Mae gan y sefydliadau hyn brofiad helaeth o ddarparu bwyd i'r rhwydwaith banciau bwyd ledled Cymru.

Rydym wedi ceisio deall y sefyllfa bresennol ar gyfer yr holl fanciau bwyd ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dod o dan ymbarél Ymddiriedolaeth Trussell (tua 50% o fanciau bwyd ledled Cymru) a'r banciau bwyd annibynnol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd sector, fel elusennau ac eglwysi. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru i asesu'r sefyllfa o ran cyflenwi bwyd i fanciau bwyd ar hyn o bryd.

Hyd yma yn ystod yr argyfwng, mae banciau bwyd y DU wedi cael sicrwydd y byddant yn cael rhoddion o £10m gan Morrison's a £15m gan Tesco, a hynny drwy Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Mae'r Co-op hefyd wedi rhoi £1.5m ac Asda wedi rhoi £5m i fanciau bwyd drwy Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Yn lleol, mae siopau unigol yn rhoi stoc dros ben yn rheolaidd i gynlluniau aiddosbarthu bwyd lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru wedi cadarnhau nad oes arni angen cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae gan ei rhwydwaith o fanciau bwyd ledled Cymru ddigon o gyflenwad i ateb y galw a digon o wirfoddolwyr i weithio yn y banciau bwyd yn ystod yr argyfwng.

Mae lleihau gwastraff bwyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i weithio â'r gadwyn gyflenwi bwyd i sicrhau bod gwastraff yn cael ei leihau a bod stoc dros ben yn cael ei hailddosbarthu yn ôl yr angen.

Rhaid canmol y camau gwirfoddol sy'n cael eu cymryd gan y diwydiant i fynd i'r afael â'r mater, yn enwedig yn ystod y pandemig presennol. Byddwn yn monitro'r adroddiadau a gyflwynir gan y gadwyn cyflenwi bwyd drwy'r cytundeb gwirfoddol, Ymrwymiad Courtauld, i weld a oes modd i ragor o fwyd dros ben gael ei ailddosbarthu yn hytrach na chael ei wastraffu. Pe bai angen cymryd camau pellach, dylai fod gennym opsiwn i'w gwneud yn ofynnol i ailddosbarthu bwyd dros ben o dan bwerau a geisir ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Fil yr Amgylchedd y DU.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**P-05-963 Require supermarkets to donate excess food to charity, Correspondence – Petitioner to Chair – 17.06.20**

Dear Janet Finch-Saunders MS,

In response to the Chair of the Petitions Committee, we would like to commend the Welsh Government's close work with charities such as the Trussell Trust, as well as the financial pledges offered by many major supermarkets, in helping to secure stable supplies for food banks across Wales in this difficult period.

We would also like to raise a few points for the Senedd's discussion of our petition, as we feel the Welsh Government's response places most of its focus on the current financial position of the major food donation distributor, Trussell Trust, during the time of upset caused by the coronavirus pandemic: while we feel that issues pertaining to the crisis should be a priority at the current time, we would also like to point out that the Trussell Trust has been reporting a record number of referrals to its food banks in Wales since last year, well before the coronavirus crisis.

UK Government authorities have maintained that food wasted by many supermarkets is still at an unacceptable level, despite the laudable donations and funds pledged by Morrison's, Tesco and other supermarkets voluntarily. In response to the UK Environment, Food and Rural Affairs Committee's report on food waste in 2017, Committee Chair Neil Parish MP concluded that while he "[commended] Tesco for publishing its food waste data from across the supply chain...The fact that no other retailers have followed their lead shows that a voluntary approach is inadequate...There is a huge amount of surplus food that is currently not being redistributed." This is a far-reaching problem, and though we are glad to see the Welsh Government's primary concern currently lies with alleviating the pressure of the coronavirus crisis, we believe that the twin issues of redistributing surplus food and preventing unnecessary supermarket food waste deserve to be considered on their own terms as separate to the pandemic.

Given the Welsh Government's commitment to halving food waste by 2025, we would like to ask what current Welsh Government powers are over surplus food redistribution, and what powers are being requested in the UK Environment Bill? What specifically does the Welsh Government propose if those powers are obtained, and with elections next May can we expect commitment to the proposals before the end of this Senedd term?

We appreciate the steps taken to communicate with the Trussell Trust and other organisations, and to ensure their financial stability at the current time. Although many food banks across the nation have sufficient food supplies and volunteers to meet demand, there are local food banks still in need of donations whose volunteer numbers have significantly reduced, such as in Caldicot where one food bank's staff has fallen from 20 to only 4. Some of these food banks are not affiliated with Trussell Trust.

When the French Government legislated a supermarket food waste ban, the law improved the quality of food donations, and saw them increased by 30% in the subsequent year alone. Despite concerns over the initial pressure put onto food rescue charities, the law helped make reducing food waste the norm in the food supply chain. Tackling food waste needs a far-reaching approach that engenders behavioural change, so that food system actors (including consumers) change their habits for the better; this needs to be a long-term change, and we urge you to settle for one that has permanent effects, rather than a temporary mandate. We hope you can see that more action on

these matters is necessary, and that while voluntary measures such as the Courtauld initiative are commendable and appropriate for the moment, the problems of food waste and food shortage are a lot older than the current crisis, and will certainly outlast it if left unchecked.

We'd be grateful if the Petitions Committee could keep this petition open and ask these further questions of the Welsh Government, as well as possibly contacting some food banks directly for their response.

Yours sincerely,

## **P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tamsin Davies, wedi iddi gasglu 8,700 o lofnodion ar bapur ac ar wefan deisebau arall.

### **Geiriad y ddeiseb**

Fel trigolion lleol, rydym yn credu bod y gwaith arfaethedig i atal llifogydd yng Ngerddi Melin y Rhath a Gerddi Nant y Rhath ym Mhen-y-lan, Caerdydd yn ddinistriol, ac yn ddianghenraid felly.

Rydym wedi gweld y llanast yng Ngerddi Waterloo ac yn gwrthwynebu Cyfnod 3 o Gynllun Llifogydd y Rhath gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn ehangu'r nant ym Melin y Rhath a Gerddi Nant y Rhath gan arwain at gwmp dros 30 o goed mewn ardal lle na chafwyd unrhyw lifogydd yn y gorffennol.

Rydym am achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Gerddi Nant y Rhath er mwyn gwarchod cymeriad yr ardal, lleihau'r difrod ecolegol a gwarchod cynefinoedd ein bywyd gwyllt lleol.

